Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Traeth

**Abermaw**
**Gwynedd**
**LL42 1HH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Y Traeth

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Traeth |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 206 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 164 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 18 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 21.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 12.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 17/03/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/06/2023 |

Daw'r data yma o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion addysgol arbennig’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol y Traeth yn angerddol dros ddatblygu, cefnogi a chynnal eu dysgwyr i lwyddo mewn amgylchedd diogel sy'n parchu pawb. Mae ymagwedd y staff a'r disgyblion o berthyn i'r dref a'r gymuned ehangach wedi ei hymwreiddio yng nghwricwlwm ac ethos yr ysgol.

Mae gan yr holl staff berthynas waith effeithiol â'r disgyblion sy'n hyrwyddo agweddau da at ddysgu a lles, yn ogystal â meithrin awyrgylch cefnogol a chynhwysol. Mae lles y disgyblion yn cael sylw hynod fwriadus. Mae gan y staff adnabyddiaeth gadarn o anghenion bron bob disgybl ac maent yn ymateb yn amserol i'w anghenion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol ac yn ymateb i'w hanghenion yn dda. O ganlyniad, mae ymddygiad ac agweddau'r disgyblion tuag at eu dysgu yn gadarnhaol. Maent yn teimlo'n falch o'u hysgol a'i chymuned.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae medrau Cymraeg y disgyblion yn datblygu'n gynyddol dda. Mae'r staff wedi rhoi nifer o strategaethau ar waith i fagu hyder y disgyblion i siarad yn gynyddol hyderus yn y Gymraeg a meithrin diwylliant Cymreig yn y dosbarthiadau a thu hwnt. Er hyn, mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn troi'n naturiol i siarad Saesneg drwy gyfathrebu â'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn bwrpasol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu ac ymestyn medrau ysgrifennu annibynnol y disgyblion. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi dechrau cynllunio i gymhwyso'r medrau ar draws y cwricwlwm ond nid ydynt wedi eu cynllunio'n ddigon adeiladol a bwriadus i sicrhau'r cynnydd a'r her briodol i ddiwallu anghenion y disgyblion.

Mae gan y pennaeth a'r dirprwy newydd weledigaeth gadarn sy'n rhoi cyfeiriad clir i'r ysgol. Mae tîm ymroddgar o staff sydd yn fodelau iaith arbennig i'r disgyblion. Maent yn cydweithio'n hynod o effeithiol ac yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r mater diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig a datblygu eu medrau Cymraeg

A3 Sicrhau datblygiad a chynnydd ym medrau'r disgyblion ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY a’r rhai sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Maent yn datblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a’u medrau yn briodol mewn cyd-destunau diddorol sy’n eu hannog i fwynhau dysgu.

Gydag anogaeth oedolion, mae llawer yn datblygu eu medrau i gyfathrebu’n gynyddol hyderus yn y Gymraeg a’r Saesneg. Er enghraifft, yn y dosbarth meithrin, mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd i ganu caneuon amrywiol i fagu a datblygu hyder i siarad Cymraeg yn gynyddol. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n ofalus ar gyflwyniadau staff ac yn parchu cyfraniadau eu cyfoedion yn gyson. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae’r mwyafrif yn ymdrechu i siarad Cymraeg wrth gyflawni eu gwaith ac yn datblygu eu geirfa a phatrymau’n addas. Er hyn, mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn tueddu i droi i’r Saesneg wrth gyfathrebu â’i gilydd.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu gwybodaeth am seiniau llythrennau yn fedrus, ac erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio ystod dda o strategaethau yn effeithiol i ddarllen geiriau llai cyfarwydd. Mae llawer o’r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau’n gadarn ac yn mwynhau darllen amrywiol destunau. Fodd bynnag, cyfyng yw eu gwybodaeth am awduron a therminoleg llyfrau, er enghraifft, fel y cynnwys, y broliant a sut i chwilota drwy’r cynnwys mewn llyfrau ffeithiol.

Yn nosbarthiadau y disgyblion ieuengaf, mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n briodol. Maent yn datblygu eu medrau modur mân yn gadarn cyn symud ymlaen at greu marciau'n bwrpasol y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, trwy ddefnyddio teclyn bychan i gyfateb lliwiau ac wrth ddefnyddio toes i greu siapiau o gregyn y môr. Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol ac yn ystyried y gynulleidfa wrth gofnodi. Mae llawer yn ysgrifennu gyda lefel dda o gywirdeb, gan atalnodi’n briodol. Er hynny, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu darnau estynedig ac i fireinio a gwella eu gwaith yn ddigon rheolaidd er mwyn meistroli ffurfiau ysgrifennu gwahanol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. O oedran ifanc, maent yn adnabod rhifau i ddeg, ac yn dechrau cofnodi data ar dablau a graffiau bar yn llwyddiannus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ffeithiau rhif fel dyblu, ac

yn hyderus wrth gyfrifo perimedr matiau picnic. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn defnyddio'r pedwar gweithrediad mathemategol gyda hyder. Ar y cyfan, mae llawer yn dechrau cymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwaith ar draws y cwricwlwm yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn cyfrifo pellter rhwng atyniadau yn yr ardal leol a disgyblion Blwyddyn 6 yn dehongli amseroedd trenau lleol yn llwyddiannus. Er hynny, nid ydynt yn cael cyfleoedd digon bwriadus er mwyn ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn llwyddiannus i ymchwilio ac i gefnogi eu dysgu yn y meysydd dysgu a phrofiad yn rheolaidd. Mae'r disgyblion ieuengaf yn hyderus wrth roi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy. Fodd bynnag, nid yw medrau trin data a chodio disgyblion wedi eu datblygu'n ddigon effeithiol.

Mae medrau creadigol cadarn bron bob disgybl yn nodwedd gref o'r ysgol. O'r oedran cynharaf, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn arddangos dychymyg a chwilfrydedd, ac yn datblygu eu mynegiant creadigol drwy amrywiol ffyrdd yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu doniau creadigol yn effeithiol, er enghraifft wrth gasglu a dethol deunyddiau naturiol i greu nythod jac do. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn efelychu amrywiol arddulliau arlunwyr Cymreig i greu darluniau trawiadol ac yn arbrofi â seiniau a rhythmau gan ddefnyddio offerynnau traw a di-draw i gyfansoddi darnau byrion o gerddoriaeth.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn datblygu medrau corfforol gyda hyder a hyfedredd cynyddol ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus ar gyfer chwaraeon tîm ac mewn sesiynau ffitrwydd.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus o fewn cymuned ofalgar a chynhwysol yr ysgol. Maent yn hyderus bod staff yn gwrando ac yn ymateb yn brydlon pan fydd ganddynt bryderon neu angen cefnogaeth. Maent yn barod iawn eu croeso tuag at ymwelwyr ac yn dangos balchder amlwg wrth rannu gwybodaeth am eu hysgol a'r gymuned leol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos cwrteisi ac yn feddylgar o anghenion eraill, er enghraifft wrth agor drysau, gan adael eraill i fynd o'u blaen. Mae llawer yn datblygu medrau cymdeithasol a rhyngbersonol aeddfed ac yn rhyngweithio'n gyfrifol â'u cyfoedion gan ddangos aeddfedrwydd cynyddol.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol ac egwyddorol ac yn ymateb yn dda i'r pwyslais y mae'r ysgol yn ei roi ar hyrwyddo gwerthoedd cadarn ymhob unigolyn. Mae'r amrywiol gefndiroedd diwylliannol ac ieithyddol o fewn cymuned yr ysgol yn eu paratoi'n effeithiol at ddatblygu ymwybyddiaeth dda iawn o'u cyfrifoldeb tuag at gynnal agweddau fel cynhwysiant a chyfle cyfartal a chynaliadwyedd. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu'r gallu a'r parodrwydd i rannu a thrafod eu teimladau pan fo'r angen yn codi, ac mewn cyfleoedd mwy ffurfiol fel 'Amser Cylch'. Maent yn dangos empathi at anghenion pobl sydd mewn angen ac yn awyddus i arwain a threfnu digwyddiadau i gefnogi elusennau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau cyfrifol ar gyfer hyrwyddo eu hiechyd corfforol, meddyliol a'u lles emosiynol. Er enghraifft, drwy

yfed dŵr yn gyson o'u poteli unigol, sydd wedi eu dylunio ganddynt ac yn destun balchder iddynt. Yn ychwanegol, mae bron bob disgybl yn dangos brwdfrydedd i gyfranogi mewn gweithgareddau corfforol fel y sesiwn 'Deffro'r Bore', rhaglen 'Ffitrwydd, Byw'n Iach' a'r ystod eang o gyfleoedd a gânt i gymryd rhan mewn gemau a chystadlaethau chwaraeon. Mae'r rhain i gyd yn boblogaidd ymhlith bron pob un o'r disgyblion, yn hybu eu ffitrwydd a'u gwytnwch ac yn eu gosod mewn lle mwy cadarn i ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfle i gynnig eu syniadau ar gyfer bywyd a gwaith yr ysgol ac yn ymateb yn frwdfrydig i'r cyfleoedd hynny. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn arddangos dealltwriaeth dda o'r rôl ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn gydwybodol. Maent yn hyderus bod eu barn a'u syniadau yn cael eu cymryd o ddifri gan arweinwyr, er enghraifft wrth ddatblygu ardal allanol yr ysgol a darparu bocsys adnoddau i bob dosbarth i'w defnyddio yn ystod adegau egwyl. Fodd bynnag, nid yw eu llais wedi ei ddatblygu'n llawn i ddylanwadu'n fwy effeithiol ar fywyd a gwaith yr ysgol yn ehangach.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o drefniadau cadw'n ddiogel ar lein. Maent yn amlygu dealltwriaeth dda wrth esbonio pwysigrwydd dilyn y cyngor a gânt gan eu hathrawon a heddwas cyswllt yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb a chwilfrydedd yn eu tasgau dysgu ac yn wynebu profiadau dysgu a sefyllfaoedd newydd gyda hyder a gwytnwch cynyddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymateb yn dda i'r ystod bwrpasol o strategaethau ac ymyraethau sy'n hyrwyddo eu lles a'u galluogi i gyfranogi'n llawn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn croesawu'r cyfleoedd i wneud dewisiadau o ran yr hyn yr hoffent ei ddysgu, er enghraifft drwy rannu a datblygu syniadau ar gyfer cynnwys eu themâu dysgu fel eu hastudiaethau o'u cynefin a chyfnod y 1960au. Wrth symud drwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'r hyder i weithio'n gynyddol annibynnol ac i herio'u hunain yn fwy, er enghraifft wrth ddewis eu tasgau. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cymryd digon o berchnogaeth dros eu dysgu na rhoi cynnig ar ddatrysiadau eu hunain cyn gofyn am gymorth staff.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos y gallu i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn dyfalbarhau'n dda wrth eu tasgau. Ar y cyfan, maent yn cyflawni'n gynhyrchiol a llwyddiannus o fewn ffiniau amser, gan ymroi i'w tasgau a pheidio â gadael i bethau eraill darfu arnynt. Mae llawer o'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth llafar staff, gan ddangos parodrwydd i weithredu ar sylwadau i wella eu gwaith.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae perthnasoedd gwaith arbennig o dda yn bodoli rhwng yr holl staff a'r disgyblion. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda iawn ac yn sicrhau bod bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel a hapus yn eu dosbarthiadau. Mae staff yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn fedrus a chyda sensitifrwydd. Mae'r amgylchedd ddysgu yn groesawgar a deniadol, sy'n ennyn diddordeb disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ac mae athrawon yn dechrau addasu eu cynlluniau gwaith yn bwrpasol gan gwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad yn briodol. Maent wedi cydweithio â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i ffurfio gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm a'i pherthnasu i fywydau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang sy'n adlewyrchu natur cyd-destun lleol yr ysgol ac ymdeimlad cryf o berthyn i'r dref a'u hardal leol sy'n tanio diddordeb y disgyblion i ddysgu mwy am eu hanes a'u diwylliant. Enghraifft dda yw disgyblion Blwyddyn 5 yn gweithio ar gywaith cyfoethog mentergarwch 'Meistri Mynyddoedd' drwy greu cwmni tywyswyr mynyddoedd yn yr ardal leol.

Mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau difyr sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau diddorol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb bron bob un yn llwyddiannus. Mae staff yn fodelau rôl iaith arbennig, ac mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu rhugldер yn briodol. Mae'r profiadau cwricwlaidd yn hybu dealltwriaeth disgyblion o les a chadw'n heini yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio gydag asiantaethau allanol sy'n darparu sesiynau ffitrwydd gyda'r ffocws ar fyw'n iach. Yn ogystal, mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu, er enghraifft wrth efelychu gwaith yr arlunydd Cymreig Tom Sloan yn ystod eu cywaith ar gwpan pêl-droed y byd.

Ar y cyfan, mae staff yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu yn yr ardaloedd tu allan i'r dosbarthiadau. Yn yr arfer orau, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ardaloedd allanol amrywiol sy'n cyfoethogi eu medrau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion fagu eu hannibyniaeth a'u creadigrwydd yn yr ardaloedd tu allan i'r dosbarthiadau.

Mae staff yn cynllunio'n addas ar gyfer datblygu medrau disgyblion ieuengaf yr ysgol. Er enghraifft, mae athrawon y dosbarth derbyn yn cynnal gwersi yn ardal natur leol, Y Wern Fynach, sy'n hybu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon effeithiol i sicrhau cyfleoedd cyson a chydlynus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n gynyddol. Mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith, gan gynnwys rhai drwy'r Saesneg, yn llesteirio datblygiad y disgyblion i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hyderus mewn gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Yn ogystal, ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn golygu nad yw athrawon yn datblygu'r ystod lawn o fedrau ''r ddisgyblion hynaf nac yn eu herio'n ddigonol bob tro ar draws yr ystod gallu.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn adeiladu ar wybodaeth flaenorol a datblygu medrau meddwl y disgyblion. Maent yn sicrhau cyflwyniadau a diweddglo diddorol sy'n ennyn brwdfrydedd a chynnal diddordeb disgyblion yn effeithiol. Maent yn cynnig adborth llafar buddiol ac amserol er mwyn annog y disgyblion i ystyried beth maent yn ei wneud yn dda a sut i wella'u gwaith. Mae'r cymorthyddion yn cefnogi hyn yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r adborth ysgrifenedig bob tro'n rhoi digon o bwyslais ar gyfleoedd i wella a mireinio cynnwys eu gwaith. Er enghraifft, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i feistroli ffurfiau ysgrifennu estynedig gwahanol.

Mae athrawon a chymorthyddion yn olrhain cynnydd disgyblion yn briodol gan ddefnyddio ystod o ganlyniadau profion safonol a gwybodaeth arall am eu datblygiad. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymateb yn brydlon i'w hanghenion a'u cefnogi'n

amserol. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw mewnbwn a chefnogaeth y cymorthyddion dysgu sy'n cefnogi'r dysgu yn gadarn gyda grwpiau penodol o ddysgwyr yn fedrus.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a hapus sy'n cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol pob un o'r disgyblion yn effeithiol iawn. Mae hyn yn galluogi bron bob disgybl i ymgysylltu'n gadarnhaol, ac i elwa o'r cyfleoedd dysgu a ddarperir ar eu cyfer.

Mae gan y staff adnabyddiaeth drylwyr iawn o bob disgybl ac maent yn anelu'n barhaus at ddiwallu anghenion unigol. Mae trafodaethau cynnydd ac asesiadau parhaus yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at sicrhau darlun clir a chyfredol o anghenion bob disgybl. Mae hyn yn galluogi'r staff i ymateb yn addas a phrydlon i'r holl ddisgyblion â'u hystod eang iawn o anghenion dysgu a lles.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ADY yn elfen nodedig o ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu'r cod ymarfer newydd yn llwyddiannus ac wedi llunio map darpariaeth sy'n cynnwys cofnod manwl o bob elfen o'r ddarpariaeth. O ganlyniad i gynllunio'r ddarpariaeth yn fedrus, mae disgyblion yn derbyn cefnogaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus. Mae'r cydlynydd ADY, yr athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n agos a chydwybodol fel tîm i deilwra'r gefnogaeth ar gyfer y disgyblion yn fwriadus. Mae gan staff drefniadau bwriadus ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ADY sy'n ymwneud â'u targedau yn eu cynlluniau datblygu unigol, a'u cynnydd o'u mannau cychwyn. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion sydd ar y gofrestr ADY yn gwneud cynnydd da.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol. Mae ethos gofalgar a chynhwysol yr ysgol, ynghyd â'r ystod amrywiol o brofiadau dysgu, yn fodd effeithiol o hyrwyddo dealltwriaeth a datblygiad y disgyblion yn yr agweddau hyn. Mae'r cyfleoedd i fyfyrio ar werthoedd, er enghraifft drwy drafodaethau yn y gwersi, addoli ar y cyd ac 'Amser Cylch', yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion fyfyrio ar werthoedd fel caredigrwydd a pharch, gofalu am yr amgylchedd ac amrywiaeth. Mae'r athrawon yn cynllunio ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o grefyddau eraill yn ogystal â Christnogaeth. Caiff y disgyblion gyfle i ddysgu am grefyddau a dathliadau crefyddol fel Diwala a Ramadan ac am gyfraniad unigolion rhyngwladol dylanwadol fel Martin Luther King a Barack Obama.

Mae'r ysgol yn achub ar gyfleoedd i hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymreig yn briodol. Achubir ar gyfleoedd i rannu a dathlu'r elfennau hyn drwy ystod o weithgareddau sy'n cael eu rhannu drwy arddangosfeydd o fewn yr ysgol a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys Eisteddfod Gŵyl Ddewi ac Wythnos Cymraeg Cŵl, gwahodd artistiaid cerddorol a chwmnïau drama i'r ysgol a dysgu am arlunwyr Cymreig. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd o ran dysgu a chysylltu eu hunaniaeth Gymreig â'r byd ehangach.

Mae meithrin creadigrwydd y disgyblion yn cael lle canolog yn narpariaeth yr ysgol. Darperir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau, fel unigolion ac mewn grwpiau. Mae hyn yn meithrin eu hunanhyder a'u gallu

mynegiannol i gyfrannu syniadau creadigol trwy weithio ar gyfansoddiadau cerddorol a thrwy gymryd rhan mewn sioeau a chyngherddau yn y gymuned. Manteisir yn ogystal ar fewnbwn artistiaid allanol fel cwmni drama proffesiynol sy'n hyrwyddo agweddau o hanes Cymru drwy chwedlau'r Mabinogi. Mae'r profiadau hyn yn cael dylanwad cadarnhaol wrth feithrin chwilfrydedd a dychymyg y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd priodol i hyrwyddo llais y disgybl. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd hyn, ac nid yw'r cysyniad o gynghorau disgyblion wedi ei ddatblygu'n ddigon eang yn yr ysgol. Er enghraifft, cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu eu safbwyntiau a'u syniadau i gael dylanwad ar fywyd a gwaith yr ysgol yn ehangach.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu ac ethos gofalgar tuag at bob disgybl. Mae'r drefn ar gyfer adrodd pryderon diogelu am ddisgyblion yn gadarn ac mae'r staff yn gwneud atgyfeiriadau amserol i asiantaethau allanol, pan fo hynny'n briodol. Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion. Fodd bynnag, mae yna faterion iechyd a diogelwch yn ymwneud â safle'r ysgol. Mae arweinwyr wedi nodi'r rhain ac wedi dechrau ymateb i'r materion hyn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth wedi sefydlu a chreu gweledigaeth glir ar y cyd gyda chymuned yr ysgol yn effeithiol. Mae'r weledigaeth wedi'i seilio ar greu amgylchedd dysgu hapus a gofalgar er mwyn cynnig sylfaen gadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau sylfaenol.

Mae'r uwch dîm rheoli yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a'u hunain. Maent yn datblygu tîm effeithiol o athrawon a staff cymorth hynod effeithiol sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo lles disgyblion yn dda. Mae'r holl staff yn awyddus i ddatblygu eu harfer wrth gyflawni eu dyletswyddau'n fedrus. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigeddau'r staff i gefnogi lles a chyflawniad disgyblion.

Mae'r arweinwyr canol yn modelu a hybu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ysgol a magu cydweithio effeithiol rhwng y staff a staff o ysgolion lleol cyfagos. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi rhannu arfer dda o brosiectau datblygu llafaredd disgyblion fel 'Ein Llais Ni ' yn ogystal ag ymweld ag ysgolion cyfagos fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Trwy gyfarfodydd a thrafodaethau staff rheolaidd, mae gan bron bob un ddealltwriaeth gadarn o brif flaenoriaethau'r ysgol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i'r ysgol ac maent yn cyfrannu'n gynyddol at brosesau hunanwerthuso'r ysgol sydd yn eu galluogi i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Maent yn derbyn gwybodaeth gyfredol, reolaidd gan y pennaeth ac yn defnyddio eu profiadau o'u hymweliadau i gefnogi arweinwyr gyda'u gwaith.

Mae gan arweinwyr drefniadau pwrpasol ar gyfer rheoli adnoddau ariannol ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd ceisio lleihau effaith tlodi ar gyflawniad disgyblion. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn addas er mwyn gwella safonau a sicrhau cynhwysiant i weithgareddau'r ysgol, fel ymweliadau, gwersi offerynnol a bag darllen i bob disgybl. Mae arweinwyr yn gwario'r gyllideb yn

ddarbodus ac yn dyrannu cyllid i gefnogi blaenoriaethau gwelliant. Mae’r llywodraethwyr yn hyrwyddo darpariaeth iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft drwy annog rhieni i ddarparu bocys bwyd iach i’w plant.

Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a’i chymuned yn arbennig o dda. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a buddiol â’r gymuned leol i gynnig profiadau gwerthfawr i’r disgyblion. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ardal gymunedol yn rheolaidd i atgyfnerthu profiadau dysgu'r disgyblion. Mae arweinwyr a staff yn ymateb yn amserol i gyfathrebu gan rieni. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi datblygu gwefan newydd er mwyn hybu cyfathrebu rhwng yr ysgol a’r cartref yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd gwella’r ysgol drwy amrywiaeth o brosesau arfarnu. Mae’r prosesau hyn yn datblygu’n gynyddol dda, gydag athrawon ac arweinwyr cwricwlwm yn cymryd rhan fwyfwy rhagweithiol. O ganlyniad, mae arweinyddiaeth ar draws yr ysgol yn dechrau datblygu’n fwriadus. Mae arweinwyr wedi dechrau casglu barn holl aelodau cymuned yr ysgol, gan gynnwys y disgyblion, fel rhan o’r prosesau gwella yn briodol. Drwy’r prosesau hyn, mae’r arweinwyr yn barod wedi nodi rhai blaenoriaethau ar gyfer cynllun gwella'r flwyddyn academaidd nesaf.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol â staff ysgolion lleol er mwyn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, y cwricwlwm newydd a deddfwriaeth ADY, er enghraifft. Yn deillio o’r cydweithio hwn, mae arweinwyr yn llunio blaenoriaethau cytûn er mwyn sicrhau gwelliant. Mae’r cynllun gwella’n cynnwys pedair blaenoriaeth sy’n canolbwyntio’n addas ar wella’r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion, gan nodi cyfrifoldebau staff am weithredu a monitro cynnydd yn briodol. Er hynny, nid yw’r gweithredoedd ar gyfer gwelliant bob tro’n ddigon bwriadus a manwl i fynd i’r afael yn ddigon effeithiol â gwella safonau dysgu ac addysgu o fewn yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cynhyrchiol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Maent yn cynnal cyfleoedd cyfoethog iddynt gymryd rhan mewn ystod dda o hyfforddiant sydd yn ymateb i’w gofynion unigol a blaenoriaethau’r ysgol yn gadarn. Er enghraifft, mae llawer o athrawon a chymorthyddion dysgu yn cael hyfforddiant dwys i gefnogi lles disgyblion, sy’n cael effaith gadarnhaol ar agweddau’r disgyblion at ddysgu.

## Sail dystiolaeth  yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   07/08/2023